# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION  CYFARFOD MEDI 2022

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 21 o Fedi, 2022** |
| **AMSER** | **7.00y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd MW y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ymestyn croeso arbennig i Archwiliwr Llwybrau Arfon y Cyngor Sir - Rob Jones<br><br>Yn bresennol heno roedd:<br>Michelle Williams **(MW);** Huw Rowlands **(HR)**; Arwyn Herald Roberts **(AHR);** Alan Hughes **(AH);** Nerys Evans **(NE)** Jason Hunt **(JH);** Gwilym Williams **(GLW)**; Tom Ellis **(TE)**; ac Gillian Thomas (y Clerc).<br>Archwilwyr Llwybrau Arfon **(RJ)**<br>. |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**:** Gwilym Thomas **(GVT)**;  Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** Elin Evans **(EE)**. |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | • **MW** datgan buddiant ar 7(d) fel perchennog y cais (gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth)<br>• **HR** datgan buddiant ar 7(b) fel cymydog agos i ymgeisydd y cais |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION GORFFENNAF 2022** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan HR gyda NE yn eilio a phawb yn cytuno |
| 5. | **MATERION YN CODI** |
| | **a) <u>HR – GORDYFIANT COED GER BRON MEILLION</u>**<br>Adroddodd HR ei fod wedi cyfarfod gyda'r rheilffordd i drafod y difrod i wal Bron Meillion ac wedi derbyn cytundeb bydd y Rheilffordd yn paratoi gwaith i dorri'r coed.  Adroddodd ymhellach bod y Rheilffordd yn cyfarfod fis nesaf er mwyn trafod y llwybr, ac un posibilrwydd cryf yw byddant yn golchi eu dwylo o'r llwybr.<br><br>**b) <u>BINIAU HALEN - GRAENU</u>**<br>Adroddodd y clerc bydd y biniau halen drwy ardal Arfon yn cael ei ail llenwi cyn cyfnod y gaeaf. Fel rhan o'r gwaith hwnnw bydd unrhyw finiau sydd wedi ei difrodi yn cael ei newid gyda bin newydd.<br><br>**c) <u>LON LLWYN ONN - TIR BRYN LLWYD</u>**<br>Derbyniwyd diweddariad gan HR bod y gwasanaeth Priffyrdd mewn trafodaeth gyda theulu'r tir berchennog i gael caniatâd i agor y ffosydd ddwy ochr i'r gylfat newydd. |

Er mwyn cyflawni eu gwaith bydd angen rhybudd cyfreithiol i gau'r ffordd sydd yn cymryd o leiaf 4 wythnos i'w brosesu. Heb rybudd nid oes gan yr adran yr hawl i gau'r ffordd heblaw i ddelio gydag argyfwng. Gan fod adnewyddu cylfat yn waith rhaglenedig, ni fydd yn bosib iddynt ddefnyddio eu pwerau argyfwng i ddelio gyda hyn.
Bydd HP a'r Cyngor Cymuned yn derbyn copi o unrhyw rybudd cau'r ffordd fel mae'n cael ei hysbysebu yn unol â'r drefn sydd yn weithredol.

**d)** **HYSBYSFWRDD RHOSTRYFAN**
Y gwaith bellach wedi ei gwblhau, anfoneb ar y rhestr taliadau i'w cyflawni heno.

**e)** **EE- TRAENIAU WEDI BLOCIO WRTH YR HEN EFAIL YN NINAS**
Cais wedi ei wneud i'r Cyngor Sir gyflawni'r gwaith

**f)** **LWFANSAU AELODAU**
Derbyniwyd wybodaeth gan Un Llais Cymru yn cadarnhau bod dymuniadau'r aelodau i wrthod y taliadau blynyddol yn parhau i fod yn dderbyniol. Cytunodd yr aelodau barhau gyda'r trefniant presennol i beidio ei dderbyn.

**g)** **ARWYDD CYFLYMDER GER BRON WYDR**
Derbyniwyd ymateb i ymholiadau'r clerc gan y Cyngor Sir bod arwyddion fel hyn wedi cael ei gosod fel rhan o gynlluniau tawelu traffig, ond tydi'r Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ddim yn gyfrifol o'i gynnal nhw wedyn. Argymhellion y Cyngor Sir yw darganfod enw ar y golau a chysylltu ag hwy yn uniongyrchol i gael gwybodaeth am gontractwr lleol i baratoi'r gwaith.

**h)** **GWERSYLLA AR Y TIR COMIN - VIEW POINT RHOSGADFAN**
Derbyniwyd ymateb gan Syrfewyr Stadau Cynorthwyol y Cyngor Sir yn hysbysebu bod angen cadarnhau statws y tir cyn gallu ymateb i'r ymholiad.
Yn bresennol mae'n disgwyl am wybodaeth gan y Tîm Pridiannu Tir Lleol a bydd yn ail-gysylltu unwaith bod ragor o wybodaeth ganddo.

## 6. CEISIADAU CYNLLUNIO

a) **RHIF CAIS: C22/0847/24/LL -** 3, Tai Coed Anna, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7NY
**Dilyn a Darganfod**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad

b) **RHIF CAIS: C22/0784/24/LL -** Cefn Coch, Dolydd, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7YA
**Dilyn a Darganfod**
Codi sied amaethyddol a gwaith cysylltiedig.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad

c) **RHIF CAIS: C22/0789/24/TC** - White Tower Caravan Park, Saron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5UH
**Dilyn a Darganfod**
Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol ar gyfer lleoli 3 carafán statig ar y safle trwy'r flwyddyn.
Cytunodd yr aelodau wrthwynebu gan ni ddylai carafanau i bwrpas gwyliau cael eu defnyddio fel cartref parhaol

d) **Rhif Cais: C22/0787/24/DT** - Bryn Gro, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7HG
**Dilyn a Darganfod**
Estyniad deulawr ac estyniad unllawr ar ochr yr annedd ynghyd â gwelliannau addasu'r modurdy presennol ar gyfer defnydd annecs ac adeiladau modurdy dwbl newydd a thirlunio cyffredinol.
Gadawodd MW yr ystafell yn ystod y drafodaeth.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad.

| | |
|---|---|
| 7. | **MATERION MISOL** |

**a) LLWYBR BRYN GWYN**

Cyflwynodd Rob Jones ei hun fel Archwiliwr Llwybrau Cyngor Gwynedd, adroddodd ei fod wedi bod yn y swydd ers blwyddyn bellach a serch hynny wedi etifeddu llawer o waith.

Diolchodd am y cyfle i gwrdd â'r aelodau i drafod y llwybrau yn gyffredinol. Rhannodd ymddiheuriadau 2 o'i uwch-swyddogion oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Fforwm Mynediad, ac adroddodd eu bwriad i fynychu cyfarfod gyda'r cyngor yn y dyfodol i drafod ROWIP Improvement Plan a chategorïau llwybrau .
Adroddodd bod amryw o waith yn y gymuned yn barod yn cael sylw. Eleni mae gwaith ar FB12 wedi ei gwblhau a gwaith ar lwybrau 111, 112, 113,wedi ac ar fin eu cwblhau. Bydd gwaith ar lwybr 10 a 19 yn y ward yn cael ei ddarparu yn fuan.

Nodwyd bod prosiect y bypass yn Llanwnda a Chaeathro wedi creu problemau a chostau enfawr i'r Adran Llwybrau oherwydd newidiadau i linell y llwybrau oedd yn golygu costau ychwanegol ar fynediad a giatiau. Yn dilyn cais y clerc am gymorth gan y Cyngor Sir a chyfarfod RJ gyda Phwyllgor Llwybrau'r Cyngor Cymuned I drafod gwaith sydd ei angen ar Lwybr Bryngwyn mae'r Adran Llwybrau bellach wedi cytuno ychwanegu'r gwaith i restr neilltuedig y Cyngor Sir am gymorth hyd at £10,000. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar waith cynnal ffosydd ac ail wynebu ond ni fydd posib ei ddefnyddio ar gostau barbio.

Nodwyd bod hyn yn bosib oherwydd bod rhai o gynlluniau gwaith oedd wedi ei rhaglennu ac yn cael ei ariannu drwy Grant Gwella Mynediad gan y Cynulliad, sydd yn gynllun tair blynedd, wedi mynd tu hwnt i'r costau gwreiddiol gyda chostau yn codi ac yn gorfod disgwyl am y cyfnod nesaf.

Bydd y Cyngor Sir yn defnyddio Grant y Cynulliad i baratoi gwaith ar unrhyw adeiladwaith ar ochor lonydd A ac B fel giatiau, camfeydd, pontydd troed neu adeiladwaith gerrig ar lwybrau.

Roddodd wybod bod giatiau mochyn yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y tir feddianwyr sydd yn creu llawer o ddrwg deimlad.

Esboniodd bod gwaith ar y Bont ym Maestryfan hefyd wedi ei raglennu ar y rhestr neilltuedig i dderbyn sylw Ebrill 2023.
Y clerc i lythyru a Chyngor Cymuned Llandwrog yn gofyn iddynt gefnogi'r gwaith.

Gofynnodd y clerc beth oedd maint hyd ac uchder cynnal llwybrau derbyniol adroddodd RJ mae 2.2m uchder x 2.5 meter o led sydd wedi ei gytuno.

NE - Llwybr o Dyddyn Canol I Randir Mwyn - Y rheilffordd wedi darparu gwaith i dynnu'r traen Ffrangeg ona heddiw, ac wedi gadael traen agored mewn cae ceffylau. Roedd yn bendant mae'r Cyngor Cymuned oedd wedi ei gosod fel rhan o'r cynlyn llwybr.

GW - Yn ymateb bod ffosydd pob tro gydag ochor y lein a'r ffens ochor arall y ffoes. Y Rheilffordd syn gyfrifol O'r ffens dros y lein i'r ffens arall. Y ffoes ar lwybr tŷ mewn i bowndri y lein fach.
Gofynnodd NE ac felly mae cyfrifoldeb y Rheilffordd yw'r ffosydd.

**b) AH – PRYDERON FEL CYNGHORYDD**

Adroddodd AH ei fwriad i ymddiswyddo heno fel aelod ar Gyngor Cymuned Llanwnda oherwydd digwyddiadau diweddar i ymwneud ac ymddygiad a honiadau contractwr y Llwybrau yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Llwybrau ac ef i drafod toriadau Stesion Rhostryfan. Nid oedd yn teimlo ei fod yn briodol i'r contractwr alw yn ei du am drafodaeth bellach wedi'r cyfarfod. Diolchodd I'r aelodau am y fraint am y flwyddyn ddiwethaf a gadawodd y cyfarfod.
Cynigiodd NE bod y Cadeirydd yn cysylltu ag ef am drafodaeth cyn y cyfarfod nesaf.

**c) TENDRO**

i. **REILIAU DIOGELWCH CAE CHWARAE RHOSGADFAN -**
Trafodwyd am y ceisiadau i baratoi'r gwaith i osod rheiliau diogelwch pellach ar y safle, cynigiodd JH dderbyn amcanbris North Wales Fencing; eiliodd NE a chytunodd pawb

ii. **ATGYWEIRIO POSTIAI RHWNG TYDDYN CANOL A RHANDIR MWYN - MAES PARCIO STESION RHOSTRYFAN -**
Trafodwyd am geisiadau i baratoi'r gwaith ffensio, cynigiodd JH dderbyn amcanbris North Wales Fencing; eiliodd NE a chytunodd pawb

**d) CAE CHWARAE TREM DON RHOSGADFAN / CROGCHWYN**

Derbyniwyd cais am gymorth gan DH ar ran Pwyllgor y Cae Chwarae am nawdd tuag at ddifa'r grog chwyn yng Nghae chwarae Trem Don, Rhosgadfan. Trafodwyd yr amcan brisiau i baratoi'r gwaith. Cynigiodd GW gefnogi'r cais gyda JH yn eilio.
Cytunwyd eu cefnogi am £600 + costau TAW eleni sef cost injectio'r chwyn ac £400 + costau TAW am gyfnod o dair blynedd wedyn i'w chwistrellu.

**e) MYNWENT CEFNFAES – GOHEBIAETH YN GWIRFODDOLI CYNNAL GWAITH**

Derbyniwyd cynnig yn gwirfoddoli rhoi sylw i'r fainc ac atgyweirio'r hysbysfwrdd yn y fynwent gan saer coed sydd yn ddiweddar wedi claddu ei dylwyth yn y fynwent.
NE yn adrodd pryderon ac yn argymell efallai bod angen hysbysfwrdd newydd.
Y clerc i yrru llythyr yn ei hysbysebu bod y Cyngor yn gwerthfawrogi ei gais ond oherwydd rheolau'r Fynwent a'r Cyngor bydd rhaid cyflogi'r sawl fydd yn darparu'r gwaith. Gan nid yw'r gwaith yn sylweddol nid oedd angen tendro'r gwaith. Y clerc i ofyn iddo am anfoneb.

**f) CAIS I ATGYWEIRIO HYSBYSFWRDD RHOSISAF**

Cytunodd MW a GT wneud asesiad o'r hysbysfwrdd.

**g) STAD GWÊL Y FOEL, DINAS - GWEDD 2**

Derbyniwyd ymateb gan Huw Evans yn hysbysebu bod Beech Developments ar y cyd gydag Adra wedi cyflwyno cais Cynllunio nôl yn Ionawr 2021 ar gyfer 17 o dai newydd ar safle'r hen dy dafarn.
Yn anffodus nol yn Mai 2021 bu i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wrthwynebu y cais ac felly ddaru'r cynllun ddim symud yn ei flaen drwy'r broses Cynllunio.

Roedd y gwrthwynebiad oherwydd lefelau "phosphates" sydd yn llifo allan o "treatment plant" Dwr Cymru, Llanfaglan sydd yn llifo allan i'r afon Gwyrfai ac mae hyn yn dilyn canllawiau newydd o Ewrop gyda lefelau "phosphates" mewn afonydd. Mae yn fater technegol a chymhleth iawn OND yn syml heb sêl bendith CNC nid oes modd sicrhau hawl cynllunio.
Mae'r broblem "phosphates" a gwrthwynebiadau CNC yn rhywbeth Cenedlaethol gydag adeiladu miloedd o dai ar hyd a lled Cymru yn methu symud yn ei blaenau. Mae ardal Wrecsam wedi ei effeithio yn fawr iawn oherwydd statws yr afon Dyfrdwy 'run peth ar afon Gwyrfai.
Ar hyn o bryd does dim datrysiad i'r broblem yn y tymor byr, gan fod angen gwario miliynau i uwchraddio "treatment plants" Dwr Cymru ar hyd a lled Cymru.

Oherwydd yr oedi mae Beech Developments (partner adeiladu Adra ar gyfer gwedd 2) wedi tynnu allan o'r cynllun yn gyfan gwbl. Roedd gan Beech gytundeb i brynu'r safle gan y perchenogion Glangwna.

Felly fel mae'n sefyll ar hyn o bryd nid oes bellach unrhyw gytundeb i brynu'r safle yn ei le, ac mae felly ansicrwydd be mae'r perchenogion sef Glangwna am wneud efo'r tir. Tan mae datrysiad ar y busnes "phosphates" rhwng CNC a Dŵr Cymru ni fydd y cynllun yn medru symud yn ei flaen o gwbl a does dim amserlen am hyn chwaith - fysa yn medru cymryd blynyddoedd.
Pe tai Dwr Cymru yn penderfynu buddsoddi yn ei gorsaf yn Llanfaglan mae'n bosib fydd y cynllun yn medru ail gydio ond does dim math o amserlen wedi ei gynnig ar gyfer hyn.

Mae hyn yn siomedigaeth fawr i Adra oherwydd bod cyfle wedi ei golli (yn sicr am sawl blwyddyn) i ddatblygu tai fforddiadwy i drigolion / teuluoedd lleol ar y safle. I grynhoi ni fydd Adra yn symud ymlaen efo Gwedd 2 fel mae'n sefyll oherwydd yn broblemau nodwydd uchod.

h) <u>CADARNHAU TREFN GRAENU A BINIAU HALEN 22/23</u>
Gweler 5(b)

| 8. | **ADRODDIADAU** |
|---|---|

**a) <u>CYNGHORYDD ARWYN HERALD ROBERTS</u>**

**i. <u>CHWAREL FOEL TRYFAN -</u>**
Yn dilyn cyfarfod gyda'r chwarel rhannodd AHR wybodaeth bydd cais yn cael ei gyflwyno yn y gwanwyn i ail agor Cors y Bryniau i ddatblygu crombil. Bydd llwybr yn parhau i gerddwyr o'r chwarel gyda bwriad adeiladu platform i gerddwyr cael gweld gwaith y chwarel. Ni fydd newidiadau pellach i'r dirwedd.
Esboniodd fod y Brifysgol yn bresennol yn gwneud astudiaeth o fyd natur a bywyd gwyllt.
Adroddodd bod y gwaith malu yn parhau, a dyfodol y Chwarel yn ddisglair diolch i'r lon newydd o Lanwnda. Mae'r Chwarel bellach wedi llwyddo cyflawni'r ordors yn dilyn yr amser bregus covid drwy gynyddu symudiadau llwyth. Nid oes newidiadau pellach ar droed i newid amseriadau symud nac cynyddu symudiadau yn y dyfodol.
Adroddodd ymhellach am obeithion a bwriadau datblygu'r chwarel fel Dinorwig 2 mewn 15 mlynedd; drwy bwmpio dŵr o Dorothea I Chwarel y Foel a chreu trydan fel Llanberis.
Siomedig iawn oedd yr aelodau nad oedd cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt wedi ail gychwyn. Y clerc i lythyru eto gyda'r Chwarel I ofyn am wybodaeth ar hyn.

**ii. <u>SURGERY CAE GORS –</u>**
Adroddodd bod cynlluniau disglair ar gyfer ail agor, gyda bwriadau i hysbysebu'r safle er mwyn mwy o ddefnydd. Bydd AHR yn cynnal ei surgery wythnosol ar y safle.
Rhoddodd wybod canlyniadau'r surgery diweddar gyda Hywel Williams gyda mwyafrif y cwynion oedd wedi eu derbyn yn cynnwys:

- **Gôr yrru o hen Siop William am y Fron a phryderon am geir o Lon Bwmp** - bydd deiseb yn cael ei gyflwyno - Hywel Williams am gysylltu gyda Phrif Arolygwr Traffic a Phriffyrdd gyda gobaith trefnu cyfarfod i drafod posibilrwydd gosod arwyddion neu dwmpathau ychwanegol. Yn ogystal i hyn mae bwriad gofyn i'r Cyngor Sir ostwng cyflymder gyrru o Dan Rhiw I'r Fron.

- **Cyflwr y lon o Siop William heibio'r Dreflan ac i fynnu** - Priffyrdd wedi rhaglennu gwaith i darmacio'r lon yn gyfan gwbl yn y dyfodol ond yn y cyfamser wedi cytuno cynnal gwaith i lenwi'r tyllau.

- **Cwynion am gwmni Adra -** Aelodau'r cwmni wedi cytuno i'w gyfarfod fis Hydref

**iii. <u>YSGOL RHOSGADFAN / CLWB PÊL DROED MOUNTAIN RANGERS -</u>**
Adroddodd AHR ei fod wedi trefnu cael hyfforddiant pêl droed yn yr Ysgol I'r plant gan ddau hyfforddwr. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy rodd gan y Cyngor Cymuned.

**b) <u>CYNGHORYDD HUW ROWLANDS</u>**

Adroddodd HR am faterion yn yr ardal sydd ganddo nawr yn nwylo'r Cyngor Sir

i. **<u>SBWRIEL O FFRWD CAE DU I ROSTRYFAN</u> -**

Adroddodd HR a'r clerc am gyflwr y lon yn dilyn toriadau gwair. Siomedig iawn yw gweld rhagor o sbwriel cyn gynted a bo'r gwaith glanhau yn cael ei gyflawni.

ii. **DRAIN YN TYFU'N GYFFREDINOL DROS OCHR PALMENTYDD**
Lleoliadau gwaethaf o dŷ Hen Efail, ar ochr chwith y ffordd wrth adael Ffrwd Cae Du am Ddinas. Y pafin yn gul iawn fan hyn, ac felly wedi gofyn iddynt chwynnu'r llwybr a'r brigau er mwyn gwneud y palmant ychydig yn lletach - Maent bellach wedi gwneud peth o'r gwaith. Hefyd drain yn tyfu dros y palmant o gylchdro ffingar at Ddolydd.

iii. **GWRYCH YN CUDDIO ARWYDD**
Arwydd ffordd gwyn yn pwyntio i Ganolfan Bro Llanwnda ar ochr chwith y ffordd yn Ddinas wrth deithio i gyfeiriad Llanwnda efo gwrych yn cuddio ychydig o'r arwydd.

iv. **FAINC AR OCHR Y FFORDD GER ARWYDD GLAN-RHYD**
Angen sylw, mewn cyflwr peryg ac angen paent.

v. **FAINC YN SGWÂR RHOS ISAF**
Angen ei gwella a chôt o greosot arni.

vi. **ARWYDD FFORDD WEDI MALU**
Arwydd gwyrdd ar ochr chwith y ffordd ychydig cyn cyrraedd cylchdro Llanwnda, wedi malu, ond byddai'n gallu gwneud efo power wash.

**vii.** **GRISIAU DINAS ANGEN SYLW**
Ger y bont sy'n mynd dros y rheilffordd yn Ddinas mae yna risiau yn mynd i lawr am Ddinas Farm angen eu tacluso, hefyd drain/tyfiant reit drwchus wrth gerdded o waelod y grisiau heibio'r tai am y ffordd o Ddinas am bentref Saron.

**viii.** **ARWYDDION ARAFU TRAFFIC WRTH BLYTHE FARM I GYFEIRIAD LLANDWROG**
Wedi gofyn am arwyddion oherwydd peryglon y dirwedd

**ix.** **CYNLLUN ARAFU TRAFFIC SARON**
Wedi cael manylion hen gynlyn gorchwyl ond dim yr un newydd yn dilyn agor y ffordd osgoi yn Llanwnda. Nodwyd oherwydd y cyfyngiadau newydd sydd ar droed gan y Llywodraeth bydd yn anodd iawn cael cytundeb i osod twmpathau newydd.

**x.** **LON LLWYN ONN, RHOSTRYFAN**
Cwynion pellach am doriadau a gordyfiant - problem fwyaf yn gorwedd gyda'r contractwyr. Y contractwyr bellach wedi bod yn ôl ac wedi gwneud gwaith gwell a'r cymdogion yn hapus.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

a) **RHIF CAIS: C22/0847/24/LL -** 3, Tai Coed Anna, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7NY
**Dilyn a Darganfod**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad

b) **RHIF CAIS: C22/0784/24/LL -** Cefn Coch, Dolydd, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7YA
**Dilyn a Darganfod**
Codi sied amaethyddol a gwaith cysylltiedig.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad

c) **RHIF CAIS: C22/0789/24/TC** - White Tower Caravan Park, Saron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5UH
**Dilyn a Darganfod**
Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol ar gyfer lleoli 3 carafán statig ar y safle trwy'r flwyddyn.
Cytunodd yr aelodau wrthwynebu gan ni ddylai caravanau i bwrpas gwyliau cael eu defnyddio fel cartref parhaol

d) **RHIF CAIS: C22/0787/24/DT** - Bryn Gro, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7HG
**Dilyn a Darganfod**
Estyniad deulawr ac estyniad unllawr ar ochr yr annedd ynghyd â gwelliannau addasu'r modurdy presennol ar gyfer defnydd annecs ac adeiladau modurdy dwbl newydd a thirlunio cyffredinol
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad.

## 10. MATERION ARIANNOL

**a) CYSONIAD**

Adroddodd y clerc bod rhai taliadau yn parhau i fod heb ymddangos ar y gyfriflen sef –

| | | |
|---|---|---|
| Idris Jones | **101647** | £2,056.80 |
| Papur Bro Lleu | **101651** | £400.00 |
| D. Humphreys | **101666** | £576.00 |
| Cyngor Gwynedd | **101665** | £222.00 |

**b) DATGANIADAU BANC**

| CYFRIF CYFREDOL 29 Fehefin I 28 Awst 2022 | |
|---|---|
| Balans Agoriadol | 15.813.18 |
| Talu i mewn | 500.00 |
| Taliadau Allan | 4,236.60 |
| Balans Cau | 12.076.58 |

| CYFRIF CADW 28 Fehefin i 29Awst 2022 | |
|---|---|
| Balans Agoriadol | 63,351.41 |
| Talu i mewn | 0.00 |
| Taliadau Allan | 0.00 |
| Balans Cau | 63,351.41 |

c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | |
|---|---|---|
| G. Thomas | **101668** | £606.50 |
| A. Hughes Jones Dyson | **101669** | £216.00 |
| Wyn Williams | **101670** | £889.00 |

## 11. GOHEBIAETH

a) Prosiect atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Pentir a Thrawsfynydd
b) HR – Diweddariad cynnal gwaith ger Bryn Llwyd, Rhostryfan
c) Cynllun Gwella Platfform Digidol Gwynedd
d) Stad Gwêl y Foel, Dinas - Gwedd 2

## 12. MATERION LLEOL / AELODAU

**a) CYSODFANNAU**

| | |
|---|---|
| | Llochesi Pitian Patian, Finger a Millets angen Jet wash y clerc i wneud cais i'r contractwr<br><br>**b)** **<u>COED YN TYFU I LON</u>**<br>Cwynion wedi eu derbyn am goed yn tyfu ar yr ochor chwith i'r lon dros ffordd i Benlan Wrth Fryn Bethel Rhosisaf I Pengroeslon Rhosisaf - lon wedi cau - dim wedi ei torrir ochor o gwbl.<br><br>**c)** **<u>PARCIO PERYG</u>**<br>Mae fan yn parcio yn gyson dros ffor I Fryn Bethel, Rhosisaf ar dro peryg wrth y gyffordd<br><br>**d)** **<u>CONAU WEDI EU GADAEL AR Y LON</u>**<br>Tu allan i dy Menai View mae dau gôn mawr wedi eu gadael sy'n gorfodi pobol hefo pramiau gerdded ar hyd y lon i'r lon.<br><br>**e)** **<u>GWTER WEDI BLOCIO</u>**<br>Tu allan I 19 Bro Wyled, Rhostryfan, mae'r gwter llawn cerrig ar y lon. |
| 13. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – 19 O HYDREF 2022 – CANOLFAN KATE ROBERTS AM 7 Y.H** |
| | **<u>MATERION I'W CADW MEWN SYLW</u>**<br><br>a) Sedd wag Pwyllgor y Fynwent<br>b) Sedd Wag Rhostryfan a Rhosgadfan<br>c) Gwersylla Ar Y Tir Comin - View Point Rhosgadfan<br>d) Llifogydd ger Pont Wernlas Ddu<br>e) Atgyweirio Twmpathau Cyflymder Rhostryfan a Rhosgadfan<br>f) Gridiau Gwartheg Diffygiol<br>g) Mynwent Cefnfaes – Archebu Tir<br>h) Adroddiadau Diogelwch Caeau Chwarae<br>i) Gwersylla Ar Y Tir Comin - View Point Rhosgadfan |